Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Deborah Jayne Hook**

**Casnewydd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn setlo'n dda ac yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn hyderus i fynegi eu syniadau a'u barn ac yn gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u chwarae yn aml. Mae'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymatebol iawn ac yn rhoi sylw i'r plant. Mae ganddi ymagwedd gynnes a magwrus ac mae'n fodel rôl da. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu dymuniadau unigol.

Mae cartref y gwarchodwr plant yn addas i blant ac mewn cyflwr da. Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae digon o le a digon o adnoddau er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r teganau a'r cyfarpar chwarae yn hybu chwilfrydedd y plant ac maent mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a rheoliadau. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad yn fawr ac mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau buddiol â gwarchodwyr plant eraill yn yr ardal leol.

## Llesiant Da

Caiff y plant lawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn symud yn rhydd rhwng yr ystafell chwarae a'r ardd, gan ddewis o blith y teganau a'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn frwdfrydig. Gall y plant fynegi eu hunain yn hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando ar eu syniadau a'u barn. Fe'u clywsom yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant gan rannu eu syniadau ac arwain eu chwarae wrth iddynt adeiladu sw gyda blociau adeiladu.

Mae'r plant yn cael hwyl yn y lleoliad ac yn meithrin cydberthnasau cynnes a chariadus â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau bod yn ei chwmni ac yn ei chynnwys yn eiddgar yn eu chwarae. Gwelsom fod y plant wrth eu bodd wrth chwarae gêm dal â'r gwarchodwr plant, ac roeddent yn llawn balchder wrth ddangos eu sgiliau hwpla iddi wrth chwarae â'r cylchoedd. Mae'r plant yn adnabod arferion y lleoliad yn dda sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel, yn gyfforddus ac wedi ymlacio. Mae'r plant hŷn yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn helpu i ddatrys unrhyw broblemau a allai fod ganddynt.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn chwarae'n hapus â'i gilydd, gan wenu a chwerthin yn aml. Mae'r plant yn rhannu adnoddau ac yn cymryd eu tro'n dda. Gwelsom y plant yn cydweithio, gan rannu pensiliau lliw a sialciau wrth iddynt fwynhau gweithgareddau tynnu llun. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd, yn defnyddio moesau da ac yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn amlwg yn mwynhau eu chwarae ac yn elwa ar ddewis eang o gyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad ac yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau'n llawn. Er enghraifft, roeddent wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae yn yr ardal fwdlyd, yn llenwi ac yn arllwys cynwysyddion o fwd ac yn defnyddio chwyddwydrau i edrych am fwydod. Mae'r plant yn cael cyfleoedd dyddiol i fwynhau allan yn yr awyr agored ac yn dod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd lleol. Maent yn chwarae yn yr ardd, yn mwynhau mynd am dro i barciau lleol, yn mynd ar deithiau ar y trên ac i ganolfannau chwarae meddal.

Mae'r plant yn gwneud cynnydd ac yn datblygu'n dda iawn yn ôl eu pwysau eu hunain. Maent yn meithrin hyder ac roeddent yn awyddus i ddangos eu darluniau a'u hoff deganau i ni. Caiff y plant gyfleoedd addas i arfer eu sgiliau annibyniaeth, sy'n helpu i hybu eu hunan-barch ac yn eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn gallu cael gafael ar adnoddau yn hawdd ac yn tacluso teganau pan fyddant wedi gorffen chwarae â nhw.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac yn deall pa weithdrefnau i'w dilyn pe byddai ganddi unrhyw bryderon am blentyn. Mae ei hyfforddiant cyfredol mewn cymorth cyntaf yn ei galluogi i ddelio â mân ddamweiniau yn hyderus. Mae systemau addas ar waith i gofnodi damweiniau a digwyddiadau ac i roi meddyginiaethau yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o fyrbrydau iachus. Mae'n paratoi bwyd mewn ffordd hylan ac yn annog arferion hylendid da gyda'r plant. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod y plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol, er enghraifft pan fyddant yn dychwelyd i mewn ar ôl chwarae yn yr awyr agored ac ar ôl mynd i'r toiled. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant fynd allan i'r awyr agored a mwynhau manteision awyr iach.

Mae gan y gwarchodwr plant ddull hyfryd o ymdrin â'r plant ac mae'n rhoi gofal cynnes a magwrus iddynt. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi strategaethau defnyddiol ar waith i gefnogi a hybu ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, mae'n defnyddio arferion myfyriol i'w helpu i nodi sbardunau ar gyfer ymddygiad, a siartiau sticeri i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Clywsom y gwarchodwr plant yn annog ac yn canmol y plant yn aml am eu hymdrechion ac am ryngweithio'n gadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnwys y plant wrth lunio rheolau'r cartref sy'n rhoi ymdeimlad o berchnogaeth a dealltwriaeth iddynt. Mae'r plant wedi creu poster o reolau'r cartref sy'n cael ei arddangos mewn man amlwg er mwyn atgoffa pawb ohonynt. Mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i wneud dewisiadau am ble yr hoffent chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef, sy'n helpu i hybu eu hunan-barch a'u hunanhyder.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Mae'n arsylwi ar chwarae a dysgu'r plant yn rheolaidd ac yn defnyddio adnodd tracio datblygiad er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf. Fodd bynnag, nid oes dyddiad wedi'i nodi ar bob sesiwn arsylwi er mwyn dangos tystiolaeth glir o gynnydd. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau a llawer o gyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain sy'n eu cymell i ddysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo dysgu'r plant yn naturiol wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, fe'i clywsom yn gofyn i'r plant enwi lliwiau, siapiau, ac anifeiliaid wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r gwarchodwr plant yn casglu samplau o waith y plant er mwyn gwneud llyfr lloffion unigol ar gyfer pob plentyn. Gwelsom o'r llyfrau lloffion bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant eu hunain a diwylliannau gwahanol drwy weithgareddau yn ymwneud ag amrywiaeth o wyliau megis Dydd Gŵyl Dewi a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar i'r plant. Mae'n gwneud yn siŵr bod y safle yn ddiogel. Er enghraifft, roedd y drysau ar glo pan wnaethom gyrraedd, a gofynnwyd i ni lofnodi cofnodlyfr ymwelwyr. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud gwiriadau gweledol dyddiol i sicrhau nad oes unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch y plant yn unrhyw ran o'r cartref. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg ar waith sy'n nodi ac yn rheoli peryglon posibl i'r plant yn effeithiol.  Mae hi hefyd yn cwblhau asesiadau risg ar gyfer unrhyw wibdeithiau. Mae ymarferion tân rheolaidd yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael y safle yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r gwiriadau cynnal a chadw ar gyfer y cartref a dyfeisiau yn gyfredol. Mae gan y gwarchodwr plant yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'n darparu ardal olau a lliwgar i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r plant yn gallu mynd i'r lolfa, yr ystafell ymolchi lawr llawr, y gegin ar gyfer prydau/byrbrydau a gweithgareddau bwrdd, a'r ardd er mwyn chwarae yn yr awyr agored. Mae'r amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer oedrannau a chamau datblygu’r plant yn y lolfa. Mae hyn yn cynnwys posau, gemau, cegin a siop chwarae rôl pren, a deunyddiau celf a chrefft. Caiff amrywiaeth o lyfrau, gan gynnwys llyfrau Cymraeg, eu harddangos mewn ffordd ddeniadol ar silffau llyfrau lefel isel pren. Mae llyfrau, posteri a gemau Cymraeg yn hybu'r Gymraeg ymhellach. Mae amrywiaeth o adnoddau amlddiwylliannol megis llyfrau, doliau a phosau yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'r gymdeithas amlddiwylliannol maent yn byw ynddi. Caiff teganau eu storio mewn ffordd sy'n galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae ardal awyr agored groesawgar ar gael i'r plant chwarae.  Mae hyn yn cynnwys ardal laswellt artiffisial er mwyn gallu chwarae ym mhob tywydd, sleid, teganau reidio, teganau cydbwyso, hambwrdd dŵr/tywod ac ardaloedd ar gyfer chwarae mwdlyd a phlannu a thyfu.

Mae'r teganau a'r cyfarpar o ansawdd da, yn lân ac yn gweithio'n dda. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn newid y teganau a'r adnoddau yn aml er mwyn darparu amrywiaeth a dewis i'r plant. Mae'r amgylchedd hefyd yn cynnwys dodrefn ac adnoddau o faint addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, uned storio lefel isel, bwrdd a chadeiriau o faint addas i blant, a gris a photi yn y toiled.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae'r gwarchodwr plant yn broffesiynol ac yn rheoli ei lleoliad yn effeithiol. Mae'n frwdfrydig ac yn sicrhau ei bod yn ymwybodol o ddatblygiadau arferion gorau ym maes gofal plant. Mae'r datganiad o ddiben yn helpu'r rhieni i wneud dewis gwybodus o ran a yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion eu plentyn. Mae'r gwarchodwr plant wedi datblygu ystod o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadlewyrchu yn ei harferion. Mae'r holl waith papur angenrheidiol wedi'i gwblhau ac wedi'i drefnu a'i gadw mewn ffordd addas. Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i ofalu am blant yn ddiogel.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'r plant a'r rhieni. Mae'n fyfyriol ac yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir, drwy gasglu safbwyntiau'r rhieni a'r plant. Defnyddir y wybodaeth hon i ysgrifennu adroddiad sy'n amlinellu cryfderau ac yn nodi meysydd i'w gwella. Er enghraifft, cydnabu'r gwarchodwr plant fod angen iddi wella ei Chymraeg ac ers hynny mae wedi ymgymryd â hyfforddiant i'w helpu yn hyn o beth.

Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu rheolaidd er mwyn sicrhau bod ei sgiliau yn gyfredol. Yn ogystal, mae hi wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant pellach er mwyn parhau i ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, cyflwyniad i anghenion dysgu ychwanegol, cefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, rheoli ymddygiad, ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin cydberthnasau buddiol â'r rhieni. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â nhw i sicrhau bod y plant yn ei gofal yn cael y cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhannu â'r rhieni cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad. Mae'r rhieni yn darparu llofnod cyffredinol i gadarnhau eu bod yn cytuno â'r gweithdrefnau, fel y gweithdrefnau ar gyfer rhoi meddyginiaeth, triniaeth feddygol frys a thynnu lluniau. Mae'r rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brofiad a datblygiad eu plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adborth llafar i'r rhieni bob dydd wrth iddynt gasglu eu plant ac yn anfon lluniau atynt o'u plant yn chwarae yn ystod y dydd. Mae holiaduron y rhieni yn llawn canmoliaeth ac yn adlewyrchu lefel uchel o foddhad â'r gwasanaeth y mae'r gwarchodwr plant yn ei ddarparu. Er enghraifft, '*my child always comes home smiling and pictures sent always show her having fun.*'

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod dyddiadau yn cael eu nodi'n gyson ar arsylwadau ac adnoddau tracio datblygiad er mwyn dangos tystiolaeth glir o gynnydd.

A2. Gofyn i'r rhieni am gydsyniad unigol ar gyfer pob gweithdrefn yn hytrach na llofnod cyffredinol, fel ei fod yn glir i'r rhieni pa weithdrefnau y maent wedi cydsynio iddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/04/2023